Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd The Green Giraffe**

**Uned 2**
**Dunleavy Drive**
**Caerdydd**
**CF11 0SR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

2/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd The Green Giraffe

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | The Green Giraffe Day Nursery Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 90 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Awst 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn ymgartrefu'n dda. Cânt gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth a sgiliau eraill mewn ystod eang o weithgareddau. Mae pob plentyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau o'i ddewis, ac yn rhydd i ddatblygu ei chwarae'n annibynnol ac mewn cydweithrediad â'i gyfoedion. Gwrandewir ar y plant ac mae eu safbwyntiau yn cael eu hystyried.

Mae'r staff yn gymwys iawn ac yn broffesiynol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymatebol ac yn parchu'r plant yn eu gofal a'r penderfyniadau maent yn eu gwneud. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant, ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn lân, â digon o le, ac wedi'i drefnu'n dda. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn rhoi cyfleoedd i'r plant wneud gweithgareddau corfforol, ond byddai'n elwa o gael ei gwella. Mae'r amgylchedd dan do yn groesawgar ac yn loyw. Mae adnoddau'n cael eu storio ar lefel isel, sy'n galluogi'r plant i gael mynediad atynt yn annibynnol. Mae adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu darparu mewn niferoedd addas.

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth. Mae gan y tîm rheoli weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n rhannu hon gyda'r staff. Mae'r rheolwyr yn cefnogi'r staff yn dda, gan ddarparu cyfleoedd datblygu da i gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Fodd bynnag, mae newidiadau staff yn ddiweddar wedi rhoi straen ar y tîm. Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau ffurfiol i'r staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae polisïau, gweithdrefnau a chofnodion da ar waith. Mae'r rhieni'n llawn canmoliaeth ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant ddewis a llais yn y lleoliad hwn. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas eu lle chwarae, gan wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef. Maent yn ymwybodol iawn o'u trefn ddyddiol. Rhoddir cyfle da i'r plant fynegi eu hunain a siarad am y pethau sy'n bwysig iddynt, megis yr hyn y maent wedi'i wneud ar y penwythnos gyda'u teuluoedd. Ymunant yn frwdfrydig mewn gweithgareddau, ac maent yn mynegi eu barn yn hyderus oherwydd gwyddant y bydd staff gofal yn gwrando arnynt. Mae cyfathrebu dieiriau'r plant hefyd yn cael ei gydnabod, megis babi'n crio i ddangos ei fod am i'w bib gael ei dynnu a gorffen bwyta, a gafodd ymateb prydlon gan aelod o staff.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Datblygant berthynas gynnes gyda'r plant eraill a'r staff. Mae'r plant yn mynd at y staff gofal yn ddigymell i geisio sicrwydd neu gefnogaeth ac maent yn mwynhau derbyn canmoliaeth a chydnabyddiaeth am eu hymdrechion. Gwelsom y plant yn chwerthin ac yn gwenu wrth i'r staff ymuno yn eu chwarae. Mae'r plant hefyd yn gyfforddus yn arferion a gweithgareddau cyfarwydd y lleoliad. Yn ystafell y babanod, daeth y staff â'r 'bocs tap tap' allan, a daeth y plant i gyd i eistedd ar gyfer y caneuon heb fawr o anogaeth gan y staff; roedden nhw i gyd wedi mwynhau'n fawr, yn ymgysylltu'n dda iawn am eu hoedran, ac yn amlwg yn gyfarwydd â'r gweithgaredd.

Mae'r plant yn cydweithio, yn cymryd eu tro ac yn rhannu, ac maent yn datblygu sensitifrwydd i emosiynau eraill. Ar y cyfan, dangosant ddealltwriaeth dda o'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn y lleoliad. Mae'r plant yn trafod eu chwarae yn dda ac mae'r plant hŷn yn chwarae'n gydweithredol. Mae'r plant yn mwynhau'r ganmoliaeth a gânt am ymddygiad cadarnhaol, ac maent yn rhyngweithio'n dda gyda'r staff a chyfoedion. Maent yn datblygu ymdeimlad o dda a drwg, ac yn datblygu i fod yn hunan-ddisgybledig.

Mae'r plant yn ymddiddori ac yn gyffrous yn y gweithgareddau chwarae y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r plant yn egnïol a chwilfrydig. Maent yn hapus ac yn hyderus i symud rhwng gweithgareddau yn rhydd, ond maent hefyd yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau o'u dewis. Yn yr awyr agored, gwelsom y plant yn mwynhau hambwrdd tywod a hambwrdd dŵr yr oedd y staff wedi dod allan ag ef. Roedd y plant yn cymryd rhan mewn llenwi, gwagio ac arllwys, wrth i aelod o staff fodelu hyn a darparu geirfa berthnasol. Mae'r plant yn elwa ar gydbwysedd da o weithgareddau trefnus a rhydd. Maent i gyd yn hapus ac yn cymryd rhan. Dywedodd yr holl blant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Anogir y plant i fod yn annibynnol iawn yn y gwasanaeth. Gallant gyrchu'r rhan fwyaf o'r adnoddau yn gwbl rydd oherwydd eu bod yn cael eu harddangos yn ddeniadol i'r plant, gan ganiatáu iddynt ymestyn a datblygu eu chwarae eu hunain fel y dymunant. Gwelsom y plant

yn chwarae'n hapus yn annibynnol heb staff, a oedd yn rhoi lle iddynt archwilio a datblygu eu chwarae eu hunain.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae’r staff yn effeithiol yn eu rolau. Maent yn deall eu cyfrifoldebau’n dda ac mae ganddynt wybodaeth dda am sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r prydau a ddarperir yn iach ac yn faethlon, ac mae gweithdrefnau cadarn ar waith i reoli alergeddau bwydydd yn ddiogel. Mae'r staff yn darparu mynediad i ymarfer corff; mae amser yn yr awyr agored ar gyfer chwarae wedi'i amserlennu'n ddyddiol. Mae’r staff yn gwybod sut i leisio pryderon diogelu. Siaradant yn hyderus am weithdrefnau diogelu a gwyddant y bydd rheolwyr yn ymateb i unrhyw bryderon a leisiant. Mae gweithdrefnau ar gyfer cofnodi rhoi meddyginiaeth, damweiniau, digwyddiadau, ac anafiadau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r rhain wedi'u trosglwyddo'n ddiweddar i gael eu cwblhau ar ap y mae'r lleoliad yn ei ddefnyddio. Mae’r rheolwyr yn monitro'r rhain yn fisol i nodi unrhyw dueddiadau mewn damweiniau a geir yn y feithrinfa, ac unwaith eto cofnodir ffyrdd o leihau'r risg y bydd y rhain yn digwydd.

Ar y cyfan, mae'r staff yn cydweithio'n dda i gefnogi ac i hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant yn eu gofal, gan drin ei gilydd a'r plant â pharch a charedigrwydd. Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn ffordd garedig a magwrol. Maent yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth i'r plant. Fodd bynnag, canfuom y gellid cryfhau rhai ffiniau i sicrhau bod y plant yn dangos parch digonol tuag at y staff ac yn gwrando pan fyddant yn cael eu cyfarch. Roedd y diffyg ffiniau cyson hwn yn cyfrannu at rai adegau pan nad oedd ymddygiad yn cael ei reoli'n dda ac roedd hyn yn effeithio ar brofiadau'r plant.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar lle caiff chwarae a llesiant y plant eu hyrwyddo'n dda. Mae gan yr holl staff natur hamddenol, hapus a gofalgar wrth ryngweithio â'r plant. Mae'r grŵp staff yn awyddus i sicrhau eu bod yn hwyluswyr chwarae a datblygiad da; mae'r holl staff yn cael hyfforddiant yn null Montessori, a gyflwynir gan reolwr cwricwlwm y lleoliad. Mae system briodol ar gyfer cofnodi ac adnabod cynnydd a chamau nesaf y plant. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau sy'n dilyn diddordebau'r plant. Mae hyn yn cysylltu â dull Montessori, y mae'r lleoliad yn ei ddilyn. Gall y plant hefyd gael mynediad rhwydd fel y dymunant at ddeunydd safonol Montessori, sy'n cael ei ddarparu. Clywsom rywfaint o Gymraeg achlysurol yn cael ei siarad gan y staff. Fodd bynnag, roedd hyn yn gyfyngedig ac nid yn gyson ar draws y feithrinfa.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae’r amgylchedd yn ddiogel, yn saff ac yn groesawgar. Mae'r staff yn wyliadwrus ac yn goruchwylio'r plant yn agos ar bob adeg. Mae'r cymarebau staff i blant yn bodloni neu'n rhagori ar y rhai sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cynhelir gwiriadau diogelwch yn ddyddiol gan y staff, i ddiddymu, lle mae'n bosibl, unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Fe wnaethom nodi bod y drws allanol yn ystafell Plum Tree yn cau'n drwm iawn, a allai achosi risg sylweddol i'r plant. Fe wnaethom fwydo hyn yn ôl i’r rheolwyr, a gadarnhaodd y bydd yn cael sylw. Mae'r cofrestrau'n cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae’r rheolwyr yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad. Mae asesiadau risg trylwyr ar waith ar gyfer pob rhan o'r lleoliad. Mae’r cofnodion yn dangos bod yr holl wiriadau cynnal a chadw rheolaidd ac arferol ar gyfer yr adeilad ac offer ar waith. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â'r broses gwacáu mewn argyfwng.

Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd cyfoethog ac ysgogol i'r plant chwarae a dysgu ynddo. Mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr addurnol da. Mae amserlenni glanhau dyddiol ar waith, a gafodd eu cynyddu gan yr arweinwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae'r toiledau'n lân ac yn rhoi preifatrwydd addas i'r plant. Gwneir defnydd eithaf da o'r lle chwarae yn yr awyr agored a gwelsom y plant yn mwynhau'r adnoddau sydd ar gael iddynt y tu allan. Fodd bynnag, mae'r ardd ei hun heb lawer o ddodrefn, sy'n golygu bod rhai cyfleoedd i archwilio yn yr awyr agored yn cael eu colli. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fod yn egnïol yn gorfforol, a gwelsom nhw'n chwarae gyda'r peli, yn rhedeg ac yn neidio, ac yn dringo ar y fframiau dringo. Prin yw’r enghreifftiau o waith y plant eu hunain yn cael ei arddangos yn yr ystafelloedd chwarae, a fyddai'n eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn rhan o'r lleoliad.

Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da ac mae'r cynllun yn hybu annibyniaeth y plant. Mae'r lleoliad yn dilyn dull Montessori ac felly mae'r plant yn defnyddio 'amgylcheddau parod' sydd wedi'u cynllunio i hwyluso a gwneud y mwyaf o archwilio'n annibynnol. Mae'r plant yn rhydd i ddewis eu gweithgareddau mewn lle tawel ac wedi'i drefnu'n dda. Mae adnoddau digonol megis deunyddiau celf a chrefft i'r plant gael amrywiaeth a dewis da. Mae’r adnoddau'n cael eu storio ar lefel isel ac yn hawdd eu gweld, sy'n galluogi'r plant i ddewis yn hawdd beth maen nhw eisiau chwarae ag ef. Mae'r dodrefn o faint a dyluniad addas ar gyfer ystod oedran y plant. Canfuom, yn ystafelloedd y babanod, fod dull Montessori o amgylcheddau parod yn arbennig o addas ar gyfer archwilio annibynnol y babanod, a bod yr ystafelloedd hyn o safon uchel iawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae’r rheolwyr yn fedrus a phrofiadol ac, ar y cyfan, yn rheoli'r gwasanaeth i safon uchel. Mae gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei hadlewyrchu yn y datganiad o ddiben. Mae polisïau a gweithdrefnau clir sy'n adlewyrchu'r lleoliad ac arferion cyfredol. Mae'r staff yn gweithio'n gyson yn unol â'r rhain i gefnogi rhediad esmwyth y lleoliad. Mae’r cofnodion gweithredol yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol. Mae cofnodion gwybodaeth am y plant yn gyflawn, ac eithrio achos o eiriad anghywir yn y caniatâd ‘i geisio gofal meddygol brys i blentyn', y mae’n rhaid ei gywiro. Mae'r rheolwyr yn cyflogi nifer priodol o staff sydd â phrofiad a chymwysterau addas i ofalu am y plant. Mae gan y rheolwyr ddisgwyliadau uchel o'r staff ac maent yn eu cefnogi a'u herio i wneud eu gorau.

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa ar wasanaeth sydd wedi ymrwymo'n ddiwyro i wella canlyniadau i'r plant. Ceir adroddiad ansawdd gofal cynhwysfawr sy'n manylu ar yr hyn y mae'r cylch chwarae yn ei wneud yn dda, a chynllun gweithredu o'r hyn y maent am ei wella. Mae'r rheolwyr yn cynnal yr adolygiad hwn yn flynyddol fel sy’n ofynnol, ac yn ystyried safbwyntiau'r plant, y rhieni, y staff, ac asiantaethau allanol megis staff ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae’r bobl sy’n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio’n galed i sicrhau eu bod yn darparu gofal o ansawdd uchel ac mae’r ffaith nad ydynt wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol yn adlewyrchu hyn.

Ar y cyfan, mae'r rheolwyr yn effeithiol wrth oruchwylio staff, rheoli eu hamser, a blaenoriaethu gweithgareddau'n ymatebol i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn drefnus a gwelsom fod hyn yn caniatáu iddynt aros yn ddigynnwrf wrth ddarparu gofal. Mae'r amgylchedd gofal tawel a hamddenol hwn yn cael effaith gadarnhaol ar hwyliau'r plant a'u rhyngweithio. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod nifer anghymesur o aelodau newydd o staff wedi'u lleoli mewn un ystafell. Gwelsom fod eu hanwybodaeth, fel tîm, am y plant ac am brosesau'r feithrinfa yn effeithio ar brofiadau'r plant yn yr ystafell honno. Cadarnhaodd y staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, gan wybod y gallant fynd at y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth am help neu am gefnogaeth os oes angen. Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn yn sicrhau bod staff addas yn cael eu cyflogi i weithio gyda'r plant. Mae system ar waith i olrhain hyfforddiant gorfodol ac mae'r staff yn elwa ar yr hyfforddiant mewnol ac allanol. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso'n rheolaidd i fyfyrio ar eu harferion, ynghyd â sgyrsiau am swyddi, lle gellir dwyn materion sy'n codi i sylw'r rheolwr cyn y cyfarfod goruchwylio nesaf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn i gwrdd â'r rheolwyr yn rheolaidd.

Mae cydberthnasau cadarnhaol gyda'r gymuned yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad hwn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd y maent wedi'u meithrin â'r rhieni a'u bod yn awyddus i sicrhau bod y rhieni'n teimlo y gallant fynd atynt ar unrhyw adeg. Gwnaethom siarad â rhieni a oedd yn canmol y gwasanaeth yn fawr, ac roeddent i

gyd yn hyderus i adael eu plant yno. Dywedodd pob un ohonynt fod y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Gwella sut mae'r Gymraeg yn cael ei chynnwys ym mhrofiadau'r plant.

A2. Adolygu strategaethau rheoli ymddygiad i sicrhau bod ffiniau addas yn eu lle a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y lleoliad.

A3. Gwella'r dodrefn a'r adnoddau ar gyfer yr ardd i gyfoethogi profiadau'r plant ymhellach.

A4. Sicrhau na all y drws allanol yn ystafell Plum Tree gau yn drwm ar blentyn.

A5. Sicrhau bod arddangosfeydd o waith y plant eu hunain ar gael ym mhob ystafell yn y feithrinfa.

A6. Rhaid cywiro geiriad 'caniatâd i geisio gofal meddygol brys ar gyfer plentyn' i adlewyrchu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a cheisio caniatâd gan rieni/gofalwyr eto.

A7. Sicrhau goruchwyliaeth drylwyr o'r tîm staff cyfan, fel na fydd newidiadau staff yn effeithio'n ormodol ar rai ystafelloedd.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 20/09/2022